

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Arolwg Omnibws Cymru 2020
# Ymgysylltiad Oedolion â'r Celfyddydau

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Methodoleg | 3 |
| Mynychu digwyddiadau celfyddydol | 4 |
| Mynychu digwyddiadau celfyddydol yn ôl demograffeg allweddol | 5 |
| Mynychu yn ôl celfyddyd | 9 |
| Cyfranogi | 12 |
| Cyfranogi o weithgareddau celfyddydol yn ôl demograffeg allweddol | 12 |
| Cyfranogi yn ôl celfyddyd | 17 |
| Atodiad 1 – Diffiniadau o safleoedd economaidd-gymdeithasol | 19 |
| Atodiad 2 – Cwestiynau Arolwg 2020 | 20 |
| Amlder | 23 |
| Diffiniadau | 23 |
| Rhagor o wybodaeth | 23 |
| Manylion cyswllt | 23 |
| Adroddiad nesaf | 23 |


*Clawr blaen:* Pushing paper: lluniadu cyfoes o 1970 hyd heddiw, Glynn Vivian (llun: Poly Thomas)

# Cyflwyniad

## Cefndir

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal arolwg ymchwil mynychu a chyfranogi blynyddol ers 1993. Mae’r arolwg yn casglu data am fynychu digwyddiadau celfyddydol a chymryd rhan mewn gweithgareddau artistig drwy gyfres o gwestiynau yn arolwg Omnibws Ymchwil Beaufort Cymru. Mae copi o'r holiadur ei hun wedi'i atodi i'r adroddiad.

Dyma grynhoi canfyddiadau'r arolwg a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2020 ac archwilio amrywiadau demograffig a rhanbarthol o ran mynychu a chyfranogi.

# Methodoleg

Mae sampl yr Omnibws wedi'i llunio i fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth sy'n byw yng Nghymru sy'n 16 oed ac yn hŷn. Roedd y pandemig yn atal y dull arferol o gyfweld wyneb yn wyneb mewn mannau samplu ledled Cymru. Yn hytrach, cynhaliwyd y cyfweliadau ar-lein gan ddefnyddio llwyfan Cint sy’n banel cyfnewid.

Roedd yr arolygon ar-lein yn addas i’w llenwi ar gyfrifiaduron, tabledi a ffonau clyfar a chynigiwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg o bob un i bawb. Gwnaed 1,002 o gyfweliadau rhwng 9 a 29 Tachwedd 2020 a chawsant eu dadansoddi.

Roedd cwotâu rheoli hefyd yn yr arolwg am oedran a rhywedd a chwota rheoli ar wahân am ddosbarth cymdeithasol. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda phobl ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Cafodd sampl y data yn phwysoli hefyd i lyfnhau unrhyw anghydbwysedd i wneud yn siŵr ei bod yn gwbl gynrychioliadol.

## Mynychu digwyddiadau celfyddydol

Ers 2006 rydym ni'n gofyn am fynychu rhestr gyson o 14 celfyddyd.

Yn 2020, mynychodd tri chwarter (75.1%) o oedolion Cymru ddigwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Ffigwr 2019 oedd 86.8%. Mae hyn yn golygu bod mynychu wedi cyrraedd eto ei lefel yn 2013. O eithrio sinema, mae 64.1% o oedolion yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn gyda'r ffigwr cyfatebol ar gyfer 2019 yn 82.4%.

Mae'r tabl isod yn dangos lefel fynychu 2020 a sut mae'r lefel wedi newid yn y 9 mlynedd diwethaf. Ni ellir cymharu'r data fel data tebyg oherwydd y newid yn y fethodoleg ond dylid ei ddefnyddio fel gwaelodlin newydd.

Tabl 1: Mynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy rhwng 2010 a 2020


| 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 79.2% | 74.4% | 76.3% | 75.1% | 79.8% | 78.6% | 78.1% | 80.7% | 84.6% | 86.8% | 75.1% |

# Mynychu digwyddiadau celfyddydol yn ôl demograffeg allweddol

Mae'r llinell ddotiog ym mhob graff yn golygu na ellir cymharu tebyg â thebyg oherwydd y newid yn y fethodoleg.

## Dosbarth cymdeithasol

Mynychu'r celfyddydau yn ôl dosbarth cymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Mynychodd 8 o bob 10 (79.6%) o'r rhai yng ngrŵp economaidd-gymdeithasol ABC1 ddigwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn 2020, o'i gymharu â 7 o bob 10 (70.2%) o'r rhai yn y grŵp C2DE. Mae hyn yn golygu bod bwlch rhwng y ddau o 9.4 pwynt canran. Mae'r bwlch yn debyg iawn o eithrio sinema, gyda 68.9% o'r rhai ABC1 yn mynychu o'i gymharu â 58.8% o'r rhai C2DE, bwlch o 10.1 pwynt canran.

Sail: pob oedolyn (2019:1,002 & 2020: 1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2019&2020

Er y bu newid yn y fethodoleg, mae patrwm mynychu'r ddau grŵp economaidd-gymdeithasol yn dilyn tuedd gyffredinol y deng mlynedd diwethaf gyda'r grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch yn mynychu'n amlach.

## Oed


| Mynychu digwyddiadau celfyddydol yn ôl oed | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-64 | Dros 65 |
|---|---|---|---|---|---|
| Unwaith y flwyddyn neu'n amlach (gan gynnwys sinema) | 86.6% | 81.4% | 79.7% | 73.4% | 58.6% |
| Unwaith y flwyddyn neu'n amlach (ac eithrio sinema) | 72.1% | 67.4% | 67.6% | 63.6% | 52% |

Tabl 2: Presenoldeb i Ddigwyddiadau Celf yn ôl Oed

Yn 2020, mae mynychu yn gostwng wrth fynd i oed. Mae 86.6% o'r rhai 16-24 oed yn mynychu unwaith y flwyddyn ond dim ond 58.6% o'r rhai dros eu 65.

Sail: pob oedolyn (2019:1,002 & 2020: 1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

Mynychu yn ôl oed 2019 (gan gynnwys sinema unwaith y flwyddyn neu'n amlach)





Yn 2019, y grŵp oedran ieuengaf oedd â'r lefel fynychu uchaf hefyd. Mynychodd ychydig dros 90% o'r rhai 16-24 oed unwaith y flwyddyn neu'n amlach o'i gymharu â thri chwarter y rhai dros eu 65.

Sail: pob oedolyn (2019:1,002 & 2020: 1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

## Rhywedd

Mynychu'r celfyddydau yn ôl rhywedd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)





Mynychodd rhagor o fenywod (77.2%) na dynion (73.1%) yn 2020, bwlch o 4.1 pwynt canran. Gan gofio'r newid yn y fethodoleg, mae hyn yn fwlch tebyg i 2019 pan fynychodd 88.9% o fenywod o'i gymharu ag 84.5% o ddynion, bwlch o 4.4 pwynt canran.

Sail: pob oedolyn (2019:1,002 & 2020: 1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

## Ardal

Mynychu'r celfyddydau yn ôl rhanbarth y Cyngor (canran sy'n mynychu'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach)





Canolbarth y De oedd â'r lefel uchaf o fynychu yn 2020, gyda 77% o oedolion yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Wedyn daeth y De-ddwyrain (75.7%), y De-orllewin (74.2%) a'r Gogledd (73.8%). Er na ellir cymharu, yn 2019, y De-ddwyrain oedd â'r lefel uchaf o fynychu (85.7%).

Sail: pob oedolyn (2019:1,002 & 2020: 1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

## Y Gymraeg

Mynychu’r celfyddydau yn ôl y Gymraeg (canran sy’n mynychu’r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu’n amlach)





O ran mynychu a gallu yn y Gymraeg, mynychodd cyfran uwch o bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg (83.9%) yn 2020, o gymharu â'r rhai na allent siarad Cymraeg (72.6%).

Sail: pob oedolyn (2019:1,002 & 2020: 1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

Wrth ddadansoddi’r siaradwyr Cymraeg, roedd lefel ychydig yn uwch yn 2020, ymhlith y siaradwyr Cymraeg nad oeddent yn rhugl (85.7%) o’u cymharu â'r siaradwyr Cymraeg rhugl (82%).

Dadansoddiad pellach o fynychu’r celfyddydau yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy’n mynychu unwaith y flwyddyn neu’n amlach)





Sail: pob oedolyn (2019:1,002 & 2020: 1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

# Mynychu yn ôl celfyddyd

## Mynychu yn ôl celfyddyd yn 2020

Mynychu'r celfyddydau yn ôl celfyddyd (canran sy'n mynychu pob celfyddyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2020: 1,002)          Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

Sinema oedd y gelfyddyd fwyaf poblogaidd i'w yn 2020, gyda 54.9% yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Wedyn daeth cerddoriaeth fyw arall (38.6%) ac arddangosfeydd a charnifalau (34%). Bale, dawns gyfoes ac opera oedd y rhai lleiaf o ran mynychu (rhwng 6.9% ac 8.5%).

## Mynychu yn ôl celfyddyd yn 2019

Tabl 3: Presenoldeb yn ôl Artform yn 2019

| | |
|---|---|
| Sinema | 60% |
| Cerddoriaeth fyw arall | 49.9% |
| Arddangosfeydd | 38.4% |
| Carnifalau | 46.2% |
| Dramâu | 35.8% |
| Gwyliau celfyddydol | 23.6% |
| Sioeau cerdd | 26.5% |
| Cerddoriaeth glasurol | 13.9% |
| Gwerin | 14.1% |
| Llenyddiaeth | 12.4% |
| Jas | 10% |
| Opera | 6.1% |
| Dawns gyfoes | 8.6% |
| Bale | 5.5% |

Yn 2019, hefyd, sinema hefyd oedd y gelfyddyd fwyaf o ran mynychu a'r bale, opera a dawns gyfoes y lleiaf.

Yn 2020:

- Roedd ychydig dros hanner (54.9%) yn mynychu sinema o leiaf unwaith y flwyddyn. Yn 2019, roedd yn 60%.
- Mynychodd rhagor o fenywod (24.3%) na dynion sioeau cerdd (19.2%) sy'n dilyn patrwm tebyg i 2019. Ni ellir cymharu'r data'n uniongyrchol ond nid yw lefel fynychu wedi newid i ddynion: mynychodd un rhan o bump o ddynion yn y ddwy flynedd a 32.1% o fenywod yn 2019.
- Pobl 25-34 oed oedd y rhai mwyaf tebygol o fynychu sioeau cerdd unwaith y flwyddyn neu'n amlach, 27.6%. Yn 2019, pobl 25-34 oed oedd â'r lefel fynychu isaf.
- Daeth ychydig dan un o bob deg (8.5%) i ddigwyddiadau opera (6.1% yn 2019).
- Nid oedd unrhyw wahaniaeth yn lefel fynychu i bale yn ôl rhywedd, gyda 7% o ddynion a menywod yn mynychu. Yn 2019, roedd rhagor o fenywod na dynion yn mynychu. Roedd 7.5% o fenywod yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach o'i gymharu â 3.4% o ddynion.
- Mynychodd un o bob 10 o'r rhai ABC1 ddigwyddiadau dawns cyfoes o leiaf unwaith y flwyddyn o'i gymharu â 6.3% o'r rhai C2DE.
- Y rhai 16-24 oed a'r rhai dros eu 65 oed oedd yn mynychu dramâu fwyaf aml ac ymhlith y rhai 45-64 oed oedd y lefel fynychu isaf. Yn 2019, y rhai 35-44 oed oedd â'r lefel fynychu uchaf a'r rhai 25-34 oed oedd â'r isaf.
- Mynychodd 14.2% ddigwyddiad cerddoriaeth glasurol. Roedd rhagor o ddynion yn mynychu na menywod, 16.1% o'i gymharu â 12.5%, sef y gwrthwyneb hyd at 2019 pan oedd 15.8% o fenywod yn mynychu o'i gymharu ag 11.8% o ddynion.
- Mynychodd bron i un o bob 10 (9.6%) ddigwyddiadau jas, yr un peth ag yn 2019.
- Roedd 12% yn mynychu gwerin. Yn 2019, roedd 14.1%.
- Mynychodd 11.9% ddarlleniadau, adrodd straeon a digwyddiadau llenyddol eraill. Nid oedd fawr o wahaniaeth yn y lefel fynychu rhwng dynion a menywod, gyda 12.6% o ddynion yn mynychu ac 11.3% o fenywod.
- Roedd bron i 4 o bob 10 (38.6%) yn mynychu digwyddiadau cerddoriaeth fyw arall, roedd rhagor o fynychu ymhlith y rhai ieuengaf, 46.5% o rai 16-24 oed a'r grwpiau hynaf oedd â'r lefel isaf, 22.1% o'r rhai dros eu 65.
- Mynychodd 34.2% arddangosfeydd celf a chrefft, gyda dwbl y rhai ABC1 (44.5%) o'u cymharu â'r rhai C2DE (23.1%).
- Roedd traean (33.7%) yn mynychu carnifalau unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mynychodd rhagor o ddynion, 36.8%, na menywod, 30.3%.
- Mynychwyd gwyliau celfyddydol gan 22.2%, gyda rhagor o ddynion a rhai yn y grŵp ABC1 yn mynd. Mynychodd chwarter y dynion unwaith y flwyddyn neu'n amlach o'i gymharu â 19.8% o fenywod a mynychodd 27% o'r rhai ABC1 o'u cymharu ag 16.9% o'r rhai C2DE.

## Cyfranogi

Cymerodd 56.6% o bobl ran unwaith y flwyddyn neu'n amlach mewn gweithgareddau artistig yn 2020.

Ni ellir defnyddio ffigyrau'r blynyddoedd blaenorol fel cymhariaeth oherwydd y newid yn y fethodoleg ond mae modd cael syniad o'r tueddiadau cyn y pandemig.


**Tabl 4: Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol rhwng 2010 a 2020**

| 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 30.4% | 28.9% | 40.2% | 34.9% | 40.1% | 41.2% | 44.1% | 45.8% | 45.6% | 49.3% | 56.6% |

## Cyfranogi o weithgareddau celfyddydol yn ôl demograffeg allweddol

### Dosbarth cymdeithasol

Cymryd rhan y celfyddydau yn ôl dosbarth cymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)





Cymerodd 60.2% o'r rhai ABC1 ran o leiaf unwaith y flwyddyn yn 2020, o'i gymharu â 52.6% o'r rhai C2DE – gwahaniaeth o 7.6 pwynt canran. Roedd cyfranogi ymhlith y rhai C2DE yn 4 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd o 56.6%.

Dyma'r un patrwm â 2019, er bod cyfranogi wedi cynyddu ymhlith y ddau grŵp (54.7% i'r rhai ABC1 a 43.5% i'r rhai C2DE).

Sail: pob oedolyn (2019:1,002 & 2020: 1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

## Oed

Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)





Roedd cymryd rhan yn y celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn yn uwch ymhlith y rhai iau. Roedd cyfranogi ymhlith pobl 45-64 oed yn is na'r cyfartaledd (6.3 pwynt canran) ac yn is hefyd ymhlith pobl dros 65 oed (9.7 pwynt canran).

Mae'r patrwm yr un fath ag yn 2019, er bod cyfranogi wedi cynyddu ar gyfer pob grŵp oedran ac eithrio'r rhai dros eu 65. Yn 2019, cymerodd 47.6% o'r rhai 65 oed ran o leiaf unwaith y flwyddyn.

Sail: pob oedolyn (2019:1,002 & 2020: 1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

## Rhywedd

Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl rhywedd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Roedd cyfranogi yn uwch ymhlith menywod na dynion o 2.8 pwynt canran, sef 57.9%.


Dyma'r un patrwm ers o leiaf 2017, er bod cyfranogi ymhlith y ddau ryw wedi cynyddu. Yn 2019, roedd cyfranogi'n 46.1% i ddynion a 52.3% i fenywod.

Sail: pob oedolyn (2019:1,002 & 2020: 1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

## Ein rhanbarthau

Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl rhanbarth y Cyngor (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

Yn y De-orllewin (58.5%) oedd y lefel gyfranogi uchaf yn 2020. Wedyn daeth y Gogledd (57.5%), Canolbarth y De (56.7%) a'r De-ddwyrain (50.8%).





Yn 2019, roedd cyfranogi ar ei uchaf yn y De-ddwyrain (57.2%), ac wedyn Canolbarth y De (54.5%), y Gogledd (44.8%) a'r De-orllewin (42/2%).

Sail: pob oedolyn (2019:1,002 & 2020: 1,002)    Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

## Y Gymraeg

Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl y Gymraeg(canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)





Roedd siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau artistig na'r rhai di-Gymraeg o 19.6 pwynt canran. Roedd cyfranogi'r rhai di-Gymraeg yn is na'r cyfartaledd.

Dyma'r un patrwm ag yn 2019, er bod cyfranogi yn y ddau grŵp yn is yn 2020. Yn 2019, cymerodd 92.3% o siaradwyr Cymraeg o unrhyw lefel ac 85% o'r di-Gymraeg ran mewn gweithgareddau celfyddydol o leiaf unwaith.

Sail: pob oedolyn (2019:1,002 & 2020: 1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

Dadansoddiad pellach o gymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy’n mynychu unwaith y flwyddyn neu’n amlach)





Sail: pob oedolyn (2019:1,002 & 2020: 1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

Ymhlith siaradwyr Cymraeg, roedd cyfranogi ar ei uchaf ymhlith siaradwyr nad oedd yn rhugl: cymerodd 77.6% ran o leiaf unwaith yn 2020. Mae hyn 11.6 pwynt canran yn uwch na chyfranogi ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl.

Dyma'r un patrwm â 2019, ond roedd cyfranogi’n uwch yn y ddau grŵp: cymerodd 97.2% o siaradwyr Cymraeg nad oedd yn rhugl ac 87.5% o siaradwyr Cymraeg rhugl ran yn 2019.

## Cyfranogi yn ôl celfyddyd

Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl celfyddyd (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2020: 1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2020

Celfyddyd weledol a chrefft oedd â'r lefel gyfranogi fwyaf gyda 37.2% yn cymryd rhan o leiaf unwaith yn 2020. Drama a gweithgareddau theatrig oedd â'r cyfranogi isaf (11.7%).

Mae'n batrwm tebyg i 2019. Ond roedd cymryd rhan ym mron pob un o'r celfyddydau'n uwch yn 2020, ar wahân i wneud ffilmiau a fideos a oedd yn 14.2% yn 2019.

Tabl 5: Cyfranogiad yn ôl ffurf ar gelf

| | |
|---|---|
| Drama | 4.7% |
| Dawns | 8.1% |
| Ysgrifennu creadigol | 11.5% |
| Y celfyddydau digidol | 13.1% |
| Ffilm, fideo a ffotograffiaeth | 14.2% |
| Cerddoriaeth | 18.4% |
| Y celfyddydau gweledol a chrefftau | 28.2% |

Yn ystod 2020:

- Cymerodd ychydig dros un o bob deg (11.7%) ran mewn drama neu weithgareddau theatrig (4.7% yn y flwyddyn flaenorol).
- Cymerodd bron i un rhan o bump (18.5%) ran mewn gweithgareddau dawns. Yn 2019, cymerodd 8.7% ran.
- Cymerodd un rhan o bump (20.4%) ran mewn ysgrifennu creadigol. Cymerodd lefel uwch o'r rhai a oedd yn gallu siarad Cymraeg ran mewn ysgrifennu creadigol (35.8%) na'r rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg (16.1%).
- Cymerodd ychydig dros chwarter y dynion, 26.3%, ran mewn gweithgareddau celfyddydol digidol o'i gymharu â 18.1% o fenywod, bwlch o 8.2 pwynt canran. Y bwlch rhwng dynion a menywod yn 2019, oedd 3.2 pwynt canran.
- Cymerodd rhagor o'r rhai ABC1 (22.9%) ran mewn gweithgareddau gwneud ffilmiau a fideos a ffotograffiaeth na'r rhai C2DE, 19.5%, bwlch o 3.4 pwynt canran. Mae'r bwlch ychydig yn llai nag yn 2019, pan oedd bwlch o 4.9 pwynt canran, (16.6% i rai ABC1 ac 11.7% i rai C2DE).
- Roedd gan siaradwyr Cymraeg lefel uwch o gyfranogi o weithgareddau cerddoriaeth (43.5%) o'i gymharu â 17.7% o'r di-Gymraeg. Yn 2019, cymerodd 21.9% o siaradwyr Cymraeg a 17.3% o'r rhai di-Gymraeg ran.
- Celfyddyd weledol a chrefft oedd y rhai mwyaf poblogaidd o ran cyfranogi (37.2%). Gyda rhagor o ddynion na menywod yn cymryd rhan yn y ddwy flynedd roedd y bwlch rhwng y ddau yn llai yn 2020 nag yn 2019, o ddefnyddio'r ffigyrau fel awgrym. Yn 2020, cymerodd 41.7% o fenywod ran o'i gymharu â 32.3% o ddynion, bwlch o 9.4 pwynt canran. Yn 2019, cymerodd 36.1% o fenywod ran o'i gymharu â 19.8% o ddynion, bwlch o 16.3 pwynt canran.

## Atodiad 1 – Diffiniadau o safleoedd economaidd-gymdeithasol

Gellir rhannu'r boblogaeth yn chwe grŵp economaidd-gymdeithasol neu safle cymdeithasol, seiliedig ar swydd prif enillydd cyflog y tŷ. Rhanna pawb arall yn y tŷ yr un safle â'r prif enillydd. I hwyluso dadansoddi, grwpir y tri grŵp cyntaf yn ABC1au ac C2DEau sef dosbarth canol a dosbarth gweithiol:

| | | |
|---|---|---|
| A | "Dosbarth canol uwch" - swydd rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch e.e. prif weithredwr, cyfarwyddwr cwmni, gwas sifil uwch, meddyg, barnwr, bargyfreithiwr, cyfrifydd gweithredol | **ABC1au** – proffesiynol, cymwys a swyddi lle na wneir gwaith â llaw |
| B | "Dosbarth canol" - swydd rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch a chanolig e.e. athro ysgol uwchradd, llyfrgellydd, rhaglennwr cyfrifiaduron, swyddog prawf, gweithydd cymdeithasol | |
| C1 | "Dosbarth canol is" - swydd arolygu, clerigol, isreoli e.e. gweithiwr swyddfa/clerigol, arolygydd ffatri, clerc banc, gwerthwr, myfyriwr | |
| C2 | "Dosbarth gweithiol medrus" - gweithiwr medrus â llaw e.e. Trydanwr, saer coed, ymladdwr tân, fforman | **C2DEau** – medrus, lledfedrus a gweithwyr llaw di-grefft a phobl na weithiant |
| D | "Dosbarth gweithiol" - gweithiwr â llaw sy'n lled-fedrus a di-grefft e.e. gweithiwr mewn siop, gweithiwr ffatri, casglwr sbwriel, negesydd, staff bar | |
| E | Y rhai sy'n llwyr ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth gan gynnwys y rhai di-waith hir dymor a phensiynwyr heb bensiynau preifat. Gweithwyr dros dro | |

## Atodiad 2 – Cwestiynau Arolwg 2020

DANGOSWCH GERDYN

**Cwestiwn 1** Darllenaf yn uchel restr o weithgareddau - pa mor aml ydych chi'n cymryd rhan ynddyn nhw neu fynd iddyn nhw? Defnyddiwch y cerdyn i'ch helpu gyda'ch ateb.
DARLLENWCH YN UCHEL

..... a) Mynd i'r sinema i weld ffilm?

- Unwaith yr wythnos neu'n amlach
- 2/3 gwaith y mis
- Unwaith y mis
- Unwaith bob 2/3 mis
- 2/3 gwaith y flwyddyn
- Unwaith y flwyddyn
- Llai aml
- Byth
- Ni wn

Ailadroddwch am:

- Sioe Gerdd
- Opera
- Bale
- Dawns gyfoes
- Dramâu
- Cerddoriaeth glasurol
- Jas
- Cerddoriaeth werin, draddodiadol a'r byd

- Cerddoriaeth fyw arall
- Arddangosfeydd Celf/chreft
- Digwyddiadau llenyddol
- Carnifal a chelfyddydau'r stryd
- Gwyliau celfyddydol

DANGOSWCH GERDYN A ETO

Cwestiwn 2 Yn eich amser hamdden, pa mor aml ydych yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a ddarllenaf yn uchel?
Mae 'cymryd rhan' yn meddwl yn y tŷ, mewn dosbarthiadau, ymarferion, sioeau neu weithdai, ond nid yn rhan o'ch swyddneu'ch addysg amser llawn.

DARLLENWCH YN UCHEL

..... a) Cerdd o unrhyw fath gan gynnwys canu offeryn, canu, rhoi help llaw mewn côr, cymdeithas operatig, band pres, cerddorfa, grŵp gwerin/roc/jas.

- Unwaith yr wythnos neu’n amlach
- 2/3 gwaith y mis
- Unwaith y mis
- Unwaith bob 2/3 mis
- 2/3 gwaith y flwyddyn
- Unwaith y flwyddyn
- Llai aml
- Byth
- Ni wn

Ailadroddwch am:

- Drama neu theatr o unrhyw fath
- Dawns o unrhyw fath
- Gwneud ffilm a fideo, neu ffotograffiaeth ar wahân i luniau o'r teulu, gwyliau neu bartïon.
- Celfyddydau gweledol a chrefftau, er enghraifft peintio, braslunio, graffeg gyfrifiadurol, crochenwaith, turnio, gwneud gemwaith, gwehyddu, tecstilau, gwau neu wnïo.
- Ysgrifennu creadigol, er enghraifft barddoniaeth neu straeon.
- y celfyddydau digidol: creu a gwneud celf gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e. lanlwytho, creu neu ailgymysgu cynnwys artistig (e.e. ar YouTube, Fflicr, ac ati.)

## Amlder

Rydym ni’n cynnwys cwestiynau yn arolwg Omnibws Oedolion Ymchwil Beaufort ym mis Tachwedd bob blwyddyn.

## Diffiniadau

Mynychu yw profi'r celfyddydau fel aelod o'r gynulleidfa.

Cyfranogi yw cymryd rhan weithredol yn y celfyddydau, megis mynychu gweithdai, dosbarthiadau neu ymarferion.

## Rhagor o wybodaeth

Gydag unrhyw sylwadau neu ymholiadau am hyn neu os hoffech ychwanegu eich enw at ein rhestr o ddefnyddwyr rheolaidd, cysylltwch â'n tîm ymchwil: ymchwil@celf.cymru

Gwefan: www.celf.cymru

## Manylion cyswllt

Tîm Ymchwil a Gwerthuso
Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL
Ffôn: 029 2044 1375

ymchwil@celf.cymru

## Adroddiad nesaf

Ebrill 2022

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**